Annwyl Aelod

Mae trefniadau bellach wedi eu gwneud i gynnal Cyfarfod Blynyddol y Clwb Mynydda am 6.00pm**,** nos Sadwrn, 21ain Tachwedd, 2026 yng Ngwesty Royal Oak, Betws y Coed gyda'r Cinio Blynyddol i ddilyn yn brydlon am 7.30pm.

MAE'R HOLL ADRODDIADAU I'W GWELD AR WEFAN Y CLWB.

Rhaglen y noson

1. Gair o groeso gan y Cadeirydd
2. Ethol Cadeirydd ar gyfer 2026-2028
3. Ymddiheuriadau
4. Derbyn cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2025 a gynhaliwyd ar 156ed Tachwedd, 2025 yng Ngwesty Royal Oak, Betws y Coed fel rhai cywir
5. Adroddiad y Trysorydd ac adroddiad ariannol 2025/2026- Dilys Phillips
6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth – Iolo Roberts
7. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau – Richard Roberts
8. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan – Iolo ap Gwynn
9. Ethol Swyddogion – Trysorydd & Ysgrifenyddion – **gweler adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol.**
10. Ethol Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor – **gweler adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol**.
11. Penodi Archwilydd
12. Cynigion a hysbysir ymlaen llaw **(GWELER ISOD)**
13. Trafodaeth agored (trwy'r Cadeirydd cyn dechrau'r cyfarfod)

Yn gywir iawn,

Iolo

Iolo Roberts
(Ysgrifennydd Gweithredol ac Aelodaeth)

Cynnig i'w drafod yn y Cyfarfod Blynyddol gan Iolyn Jones

Hoffwn gynnig y canlynol i'w drafod yn y Cyfarfod Blynyddol:

Aelodaeth

Os deallaf yn iawn y drefn bresennol yw talu aelodaeth yn rhoi aelodaeth sydd yn cynnwys yswiriant BMC. Mae rhan fwyaf o'r tal yn mynd i'r BMC

Os telir swm llai bydd yr y talwr yn cael ei ystyried fel cefnogwr, y clwb yn cadw'r arian i gyd ond y talwr ddim yn cael mynd ar deithiau am nad oes yswiriant.

Llynedd am fy mod yn methu cerdded ar y pryd r' oeddwn yn pendroni os oeddwn am ymaelodi. Fe ymunais gan obeithio y byddai pethau yn gwella ond ni fûm ar unrhyw daith. Mae'r sefyllfa yn debyg eleni.

Llynedd cefais wybod gan Dilys fod y pwyllgor am drafod y trefniant ond hyd y gwn nid yw hyn wedi digwydd.

Credaf y dylid cael dau fath o aelodaeth, gyda a heb yswiriant BMC. Gellid dweud bod rhaid cael yswiriant ar rhai teithiau. Byddai hyn yn golygu bod y clwb o bosib yn cadw mwy o'r tal aelodaeth a bod rhai fel fi sydd bellach ddim ond am wneud teithiau hawdd (gobeithio) yn cael dod i fwynhau cwmni rhai sydd o'r un anian.

CYFARFOD BLYNYDDOL CLWB MYNYDDA CYMRU

NOS SADWRN, 15fed TACHWEDD 2025 AM 6.00 O'R GLOCH

Enwebiad fel Swyddog / Aelod o'r Pwyllgor

Hoffwn enwebu (enw) …… ar gyfer y swydd o

…… / neu fel aelod o'r Pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol

Mae'r unigolyn wedi cytuno i'r enwebiad.

Cynigydd(enw) …….. (llofnod) ……

Eilydd (enw) …….. (llofnod) ……

Cynnig i'w drafod yn y Cyfarfod Blynyddol

Hoffwn gynnig y canlynol i'w drafod yn y Cyfarfod Blynyddol:

……

……